

# Gwers 11 – Gadewch fy mhobl yn rhydd

## Nodiadau Cefndir i'r Athro

### Exodus 3 – 7

**D**yhwelodd Moses i'r Aifft a chyda cymorth Aaron eglurodd wrth y bobl pwy ydoedd a beth yr oedd Duw wedi gorchymyn iddo ei wneud, a gwnaeth 'arwyddion yng ngŵydd y bobl. Credodd y bobl a phan glywsant fod yr Arglwydd wedi ymweld â phobl Israel a'i fod wedi edrych ar eu hadfyd, bu iddynt ymgrymu i lawr ac addoli' (Exodus 4:30–31).

Ysywaeth, roedd amgylchiadau'r Israeliaid wedi gwaethygu oherwydd roedd y defnydd ar gyfer gwneud priddfeini yn cael ei atal gan Pharo (Exodus 5:7). Roedd angen gwellt i gydio'r clai wrth ei gilydd fel bo'r priddfeini'n cadw eu siâp tra'n sychu; hebddo byddai'r priddfeini'n werth dim. Er nad oedd y defnydd crai ar gael nid oedd dim cwtogi i fod ar y cynnyrch (Exodus 5:10–13); rhaid felly oedd i'r bobl gasglu sofr yn lle gwellt. Rhoddai swyddogion yr Israeliaid y bai am y caledi ar Moses (Exodus 5:21). Nid oedd Moses yn fodlon fod ei bobl yn dioddef a dychwelodd a chwynodd gerbron Duw (Exodus 5:22–23).

Gorchmynnodd Duw wrth Moses i fynd at Pharo a dweud wrtho am ryddhau'r bobl o'i wlad. Er i Moses ddweud, 'Y mae nam ar fy lleferydd; sut, felly, y bydd Pharo yn gwrando arnaf?'

Aeth Moses ac Aaron at Pharo a dechrau dangos pŵer Duw iddo. Dywedodd Duw wrtho i ddychwelyd at Pharo ac os byddai'n gwrthod rhyddhau'r bobl roedd Aaron i daflu ei wialen ar lawr o'i flaen; byddai'r wialen yn troi yn sarff (Exodus 7:9). Pan ddigwyddodd hynny, anfonodd Pharo am ei ddewiniaid a thaflodd pob un ohonynt eu gwial ar lawr a throdd pob un yn sarff; ond llyncodd gwialen Aaron eu gwial hwy. Roedd gwneud rhyfeddodau fel rhain yn dangos awdurdod a goruchafiaeth. Caledwyd calon Pharo a gwrthododd ryddhau'r bobl.


Ymatebodd Duw gyda chyfres o blâu, deg ohonynt (gweler gwers 12). Yn dilyn pob un, gwrthododd Pharo gais Moses, "Gollwng fy mhobl yn rhydd, er mwyn iddynt fy addoli yn yr anialwch". Dim ond ar ôl y degfed pla, a'r mwyaf ofnadwy, y calliodd Pharo.

Dewisarhaiddehongli'r plâufelcyfres oddigwyddiadau naturiol yn cael eu grymuso gan Dduw. Yn ôl y dehongliad hwn y mae gweithred Moses yn gwasgaru llwch, ac sy'n troi yn llau, yn symbolaidd ac yn arwydd o ehangder y trychineb. Oherwydd mai Duw sydd y tu ôl i hyn, gellir yn wir dderbyn fod y llwch yn wir wedi troi'n llau, yn union fel y trodd y wialen yn sarff. P'run bynnag, y mae'r digwyddiadau hyn yn dangos pŵer Duw, ac yn gosb ar yr Eifftiaid oherwydd amharodrwydd Pharo i ryddhau'r Israeliaid.

### Galwad Moses

Pan yr oedd tua 40 oed, gorfodwyd Moses i ffoi o'r Aifft oherwydd i Pharo glywed ei fod wedi lladd Eifftiwr a welodd yn cam-drin Hebrëwr; aeth i fyw yng ngwlad Midian i'r dwyrain o'r Aifft (Exodus 2:11ym). Roedd y Midaniaid yn ddisgynyddion i Abraham trwy ei ail wraig, Cetura. Tra'r oedd Moses yn eistedd wrth ffynnon, daeth saith o ferched Jethro (neu Reuel) i godi dŵr. Ceisiodd rhai bugeiliaid eu rhwystro, ond cynorthwyodd Moses hwy i godi dŵr. Croesawyd Moses i gartref y merched a rhoddodd Jethro ei ferch Seffora yn wraig iddo, a ganwyd mab iddynt a alwyd yn Gersom. Aeth 40 mlynedd heibio a Moses yn bugeilio defaid Jethro. Yn y cyfamser, bu farw brenin yr Aifft, ond roedd pobl Israel yn dal i riddfan oherwydd eu caethiwed.

Daeth Moses i Horeb, neu Sinai, a chafodd brofiad a fyddai'n newid cwrs ei fywyd. Gwelai berth yn llosgi ond heb ei difa, a chlywodd lais Duw yn ei gyfarch o'i chanol ac yn ei alw i arwain ei bobl o'r Aifft i ryddid. Roedd Moses yn amharod i ufuddhau (gweler Exodus 3:11, 3:13, 4:1, 4:10, a 4:13). Pan addawodd Duw y byddai'n anfon Aaron, brawd Moses, i fod yn enau iddo gerbron Pharo, cychwynnodd tua'r Aifft gyda'i wraig a'i feibion.



Anfonwyd Moses a'i frawd Aaron i ddweud wrth Pharo, brenin yr Aifft, am ollwng eu pobl yn rhydd.  
Lliwia'r llun hwn gyda chreonau neu binnau ffelt.  
Darllen Exodus 5:1-9.

# Gwers 11 – Gadewch fy mhobl yn rhydd!

## Duw'n siarad â Moses | Exodus 3,4

### Beibl Gweithgaredd y Plant / Lleiaf tud. 50



#### Gwers 11

Gadewch fy mhobl yn rhydd

#### **BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DAN /DROS 7 oed**

Gadewch fy mhobl fynd yn rhydd tud 50

#### **BEIBL LLIW STORI DUW**

Plau'r Aifft tud 52

Y pla olaf tud 53

#### **BEIBL LLIW Y PLANT**

Moses yn Rhybyddio Pharo tud 72

Plau'r Aifft tud 74

Y Degfed Pla tud 76

#### **BEIBL BACH I BLANT**

Y Brenin oedd yn dweud "Na" tud 100

#### **Y BEIBL I BLANT mewn 365 o storïau**

Llyffantod, pryfed a chenllysg tud 64

Y gosb olaf tud 65

#### **BEIBL LLIW Y TEULU**

Llyffantod, llau a swigod tud 35

#### **I ddechrau**

**Cyfri deg:** Rhannwch y plant yn barau a rhowch bapur iddynt. Eglurwch eich bod yn mynd i enwi categori. Rhaid iddynt ysgrifennu 10 gwrthrych sy'n perthyn i'r categori hwnnw, e.e. anifeiliaid: ci, cath, mwnci, arth, crocodeil, neidr, eliffant, cwningen, llygoden.

Wedi iddynt gael 10, rhaid iddynt eistedd yn daclus, gan blygu breichiau a gweiddi, "Deg ar y dudalen!" Pa ddau fydd yn ennill y ras? Ail adroddwch y gêm gyda gwahanol gategoriâu (dinasoedd, gwledydd, afonydd, gemau pêl, melysion, bisgedi ac ati).

Neu,

**Gêm i blant bach:** Gan na all y plant lleiaf ysgrifennu, beth am chwarae'r gêm hon. Rhannwch y dosbarth yn ddau dim. Rhaid i bob aelod o'r tîm wneud symudiad 10 o weithiau, e.e.

Person 1 – clapio 10 o weithiau

Person 2 – neidio ar ddwy goes 10 o weithiau

Person 3 – dal pêl 10 o weithiau

(symudiadau eraill: ysgwyd llaw, rhowch i mi bump! (give me five!), eistedd a chodi, troi yn yr unfan, rhedeg at wal, ac ati)

Pa dîm fydd yn llwyddo i gyflawni'r tasgau gyntaf?

#### **Yr hanes**

Eglurwch wrth y dosbarth fod stori'r Beibl heddiw yn rhestru 10 peth a ddigwyddodd yng ngwlad yr Aifft pan wrthododd y brenin wrando ar Moses. Roedd Moses wedi dweud wrtho fod Duw am iddo adael i'r Israeliaid, pobl Dduw, adael gwlad yr Aifft wedi blynyddoedd o weithio fel caethweision.

Bydd angen y Llinell Amser arnoch. Defnyddiwch y llinell amser i atgoffa'r plant fod yr Israeliaid wedi mynd i'r Aifft oherwydd newyn yn amser Joseff.

Darllenwch yr hanes gan ddefnyddio'r Beibl Gweithgaredd neu un o'r llyfrau ar y Rhestr Adnoddau.

#### **Atgyfnerthu'r stori**

Gofynnwch i'r plant geisio enwi'r 10 peth drwg ddigwyddodd i'r Eifftiaid.

Gofynnwch pam fod y 10 peth drwg yma wedi digwydd?

Dylai fod un o'r plant yn dweud fod Pharo wedi dweud 'Na' pan ddywedwyd wrtho am adael i'r Israeliaid adael gwlad yr Aifft.

Holwch y plant a fyddant hwy yn dweud 'Na' – wrth eu rhieni, wrth athro, wrth ffrindiau. Eglurwch fod dweud na yn beth doeth weithiau, e.e. pan mae rhywun yn ceisio eich cael i wneud rhywbeth na ddylech chi. Ond mae'r Beibl yn pwysleisio'r angen i anrhydeddu ein rhieni, ac mae hynny'n golygu gwrando arnynt ac ufuddhau iddynt, nid dweud na.

Mae'r Beibl hefyd yn pwysleisio na ddylem ddweud 'Na' wrth Dduw.

Mae llawer o bobl heddiw fel Pharo – yn gwrthod gwrando ar Dduw ac yn dweud 'Na' (Na, dydw i ddim yn mynd i gredu/ dydw i ddim yn mynd i ddweud sori/ dydw i ddim am ddarllen y Beibl/ dydw i ddim yn mynd i weddio/ dydw i ddim am glywed am Iesu Grist).

### Gêm atgyfnerthu

Paratowch 2 gerdyn.

Ysgrifennwch 'lawn' ar un cerdyn, a 'Na' ar y llall a'u gosod wyneb i lawr ar y bwrdd. Eglurwch wrth y plant eich bod chi'n mynd i ofyn iddynt wneud nifer o bethau, e.e.

A wnei di glirio'r bwrdd, os gweli'n dda.

Gofynnwch i'r plant beth ddylen nhw ei ddweud. Dylent ddewis dweud 'lawn'. Gofynnwch i un o'r plant ddewis a chodi un o'r cardiau. A yw'r cerdyn yn dweud 'lawn'?

Cymysgwch y cardiau y tu ôl i'ch cefn a'u hailosod ar y bwrdd yna, symudwch ymlaen at gwestiwn arall, e.e.

A wnei di dacluso dy ystafell wely?

A wnei di fynd i dy wely?

A wnei di ddarllen dy Feibl?

A wnei di weddio?

A wnei di fod yn garedig wrth eraill?

Ceisiwch gynnwys cymysgedd o gwestiynau o fywyd pob dydd ac ufudd-dod i Grist a'r bywyd Cristnogol.

### Dysgu adnod

'Yr wyf wedi gosod fy mryd ar ufuddhau i'th ddeddfau' (Salm 119:112).

Neu,

'Dw i'n benderfynol o ddilyn dy ddeddfau di' (beibl.net)

Dylid paratoi nifer o wellt (un ar gyfer pob plentyn yn y dosbarth), a thorri bod un o wahanol hyd. Bydd yr athro yn dal y gwellt yn ei law fel eu bod yr un hyd. Bydd pob plentyn yn cymryd gwelltyn. Bydd y plentyn sydd â'r gwelltyn byrraf yn dweud hanner 1af yr adnod (yr wyf wedi gosod fy mryd) a phawb arall yn gorffen yr adnod (ar ufuddhau i'th ddeddfau). Gwnewch hyn nifer o weithiau, gan gynnig help i unrhyw blentyn sydd yn cael anhawster mewn dysgu pethau ar ei gof.

### Gêm ychwanegol

Os oes digon o le, gallwch chwarae gêm gyda phêl feddal. Rhaid i Berson 1 geisio dal y gweddill wrth daro eu coesau o dan y pen-glin. O gael eu dal rhaid eistedd hyd nes i rywun arall o'r dosbarth roi '5 uchel' iddynt er mwyn eu rhyddhau a'u gollwng yn rhydd. Rhowch gyfle i bawb fod yn Berson 1.

Neu,

Gallwch chwarae'r gêm "Paid â dweud Na"

Gosodwch gadair o flaen y dosbarth – cadair "Paid â dweud Na!". Bydd pawb yn eistedd ar y gadair yn ei dro ac ateb y cwestiynau y bydd yr Athro yn eu gofyn yn gyflym. Nid oes hawl dweud Na! wrth ateb.

## Adnoddau Ychwanegol

### Crefft

Llyfr Crefftau Stori Duw i blant dan 11 oed Moses yn cyfarfod â Duw tud.19

### Tafleenni gwefan amserbeibl.org

Cyfres B – Moses

### Cyfres DVD Stori Duw

Stori 10: Gadewch i'm mhobl i fynd!

### Cwis a Chwilair

Llyfr Cwis Cynta i Ateb, tud 278

### Cyfres PowerPoints Beibl Bach i Blant

Cyflwyniad 11: Y Brenin a oedd yn dweud NA

### Llyfrau Stori

Moses, cyfres Testament

Pam fod Pharo mewn penbleth?

Moses yr Arweinydd

